Rhagoriaeth i bawb - Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yr ymweliad
# Lefel y dilyniant: Monitro gan Estyn

**YGG Llwynderw**
**West Cross Lane**
**West Cross**
**Abertawe**
**SA2 9AP**

**Dyddiad yr ymweliad: Tachwedd 2012**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Y tîm monitro**

| | |
|---|---|
| Terwyn Tomos | Arolygydd Cofnodol |
| Huw Watkins | Arolygydd Tîm |
| Roger Davies | Cynrychiolydd awdurdod lleol |

**Canlyniad yr ymweliad monitro**

Bernir bod Ysgol Gynradd Gymraeg Llwynderw wedi gwneud cynnydd annigonol mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd yng Ngorffennaf 2011.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn cynyddu lefel y gweithgarwch dilynol.

Bydd arolygwyr Estyn yn ail-ymweld â'r ysgol ymhen rhyw 12 mis i arolygu cynnydd yn erbyn yr argymhellion yn yr adroddiad arolygu gwreiddiol.

**Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf**

**Argymhelliad 1: Parhau gyda'r safonau da presennol ac yn CA2 gwella ansawdd medrau ysgrifennu ymhlith bechgyn yn Gymraeg, a chodi'r canran o ferched sydd yn cyflawni lefel 5 neu well yng ngwyddoniaeth a mathemateg**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae canlyniadau asesiadau athro ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol yn 2012 yn dangos bod safonau'r ysgol yn parhau'n gyson dda. Er nad cystal â'r blynyddoedd blaenorol, mae canlyniadau yn parhau i fod yn uwch na chyfartaleddau'r teulu a Chymru, ac mae'r ysgol yn perfformio'n weddol agos i'r disgwyliadau o gymharu ag ysgolion eraill y teulu. Yr oedd y nifer y disgyblion yn y garfan yn llai na'r arferol, a gwerth canran pob disgybl o ganlyniad yn uchel, ac anodd yw dod i farn ystyrlon ar dueddiadau.

Mae canlyniadau asesiadau athro ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 mewn ysgrifennu Cymraeg a Saesneg yn dangos bod bechgyn wedi gwneud cynnydd ar ganlyniadau'r blynyddoedd blaenorol. Yn yr un modd, mae canlyniadau merched yn y lefelau uwch na'r disgwyl (lefel 5) mewn mathemateg a gwyddoniaeth yn uwch na chyfartaleddau'r teulu a Chymru.

Ar draws yr ysgol, hyd at Flwyddyn 6, mae llyfrau gwaith y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos cynnydd priodol mewn safonau. Maent yn datblygu'n effeithiol ar draws y medrau ac o fewn pynciau, ac mae dilyniant a pharhâd yn y gwaith.

Fodd bynnag, nid yw'r gwaith yn llyfrau disgyblion presennol Blwyddyn 6 yn briodol i oed a gallu'r disgyblion. Nid oes digon o waith yn y llyfrau, mae gormod o enghreifftiau o waith heb ei orffen a does dim tystiolaeth o waith mewn gwyddoniaeth.

**Argymhelliad 2: Sicrhau bod athroniaeth y Cyfnod Sylfaen yn cael ei gweithredu yn y dosbarthiadau perthnasol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae safonau disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn dda. Mae'r plant yn gwrando'n dda ac yn ymateb yn briodol mewn sesiynau ffocws, ac maent yn cymryd rhan frwdfrydig yn yr amrywiaeth o weithgareddau sydd ar eu cyfer. Mae eu medrau llythrennedd a

rhifedd yn datblygu'n llwyddiannus.  Dangosant ddiddordeb cynyddol mewn llyfrau, ac maent yn cymryd rhan yn wirfoddol mewn gweithgareddau ysgrifennu a darllen yn y gwahanol ardaloedd gweithgaredd.  Ar lefel briodol i'w gallu a'u hoed, maent yn medru cymwhyso'u medrau rhif i amrywiol sefyllfaoedd, megis yn y siop, caffi neu gegin.

O ganlyniad i weithredu cynllun datblygu penodol, mae'r ddarpariaeth yn awr yn ateb athroniaeth a gofynion y Cyfnod Sylfaen yn llawn.  Mae'r athrawon yn cynllunio'n drylwyr, ac yn ymateb yn dda i syniadau'r plant.  Mae'r asesu parhaus sy'n digwydd yn dylanwadu'n dda ar gynllunio'r ffordd ymlaen i'r disgyblion.  Yn y dosbarthiadau meithrin, derbyn ac ym Mlynyddoed 1 i 3, mae cydbwysedd da rhwng gweithgarwch ffocws a rhoi cyfleoedd i blant i ddewis cyfeiriad eu dysgu eu hunain.  Mae staff digonol ar gael i gefnogi'r dysgu, ac maent yn gwneud hynny'n effeithiol gan fodelu iaith raenus ac yn delio'n briodol gydag unrhyw broblemau ymddygiad.

**Argymhelliad 3:  Gwella ansawdd y Cynllun Datblygu Ysgol (CDY) trwy, er enghraifft, ddefnyddio targedau meintiol, a datblygu rôl athrawon a llywodraethwyr wrth fonitro gwaith yr ysgol o fewn y broses hunan arfarnu**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Yn dilyn yr arolygiad, bu newidiadau yn staffio'r ysgol, ac arweiniwyd yr ysgol gan bennaeth a dirprwy-bennaeth dros dro.  Ym Medi 2012, dychwelodd pennaeth yr ysgol i'w swydd, a phenodwyd dirprwy-bennaeth newydd.

Mae'r cynllun datblygu ysgol a ffurfiwyd ers yr arolygiad gan yr uwch dim rheoli dros dro yn ddogfen ddefnyddiol ac yn seiliedig ar ddeilliannau gweithdrefn hunan arfarnu newydd.  Mae ynddi dargedau meintiol lle bo hynny'n briodol.

Mae'r gweithdrefnau hunan arfarnu newydd yn briodol ac yn cynnwys cyfraniad effeithiol gan athrawon a llywodraethwyr.  Mae'r amserlen fonitro yn glir, ac yn cynnwys arsylwadau gwersi, dadansoddiad data a monitro gwaith disgyblion.  Hyd at fis Gorffennaf 2012, cafodd yr amserlen fonitro ei gweithredu'n effeithiol ac yn unol â'r terfynau amser.

Fodd bynnag, ers Medi 2012, nid yw'r tîm rheoli presennol wedi parhau gyda'r amserlen fonitro, ac nid oes digon o dystiolaeth iddo fonitro ac arfarnu cynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r cynllun datblygu.

**Argymhelliad 4:  Gwella ansawdd dysgu, addysgu ac ymddygiad ble mae hyn yn anfoddhaol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae safonau dysgu ac addysgu yn anghyson ar draws yr ysgol.  Yn nosbarthiadau'r Cyfnod Sylfaen, mae'r ddarpariaeth yn effeithiol ac yn hybu disgyblion i ddysgu mewn amgylchedd lliwgar a symbylus.  Fodd bynnag, yn rhan uchaf cyfnod allweddol 2, nid yw'r cyflawniadau mewn gwersi a llyfrau gwaith yn adlewyrchu'r safonau priodol ar gyfer oed a gallu disgyblion.

Erbyn hyn, mae'r cynlluniau gwaith yn gyson ar draws yr ysgol ac, ar y cyfan, cânt eu gweithredu'n effeithiol ar draws yr ysgol. Yn yr addysgu gorau, mae cyflymder gwersi'n dda, disgwyliadau'r athrawon yn uchel a disgyblion yn cael eu herio yn briodol. Fodd bynnag, ym mhen uchaf cyfnod allweddol 2, nid oes digon o her i ddisgyblion, na gwahaniaethu effeithiol ac, o ganlyniad, nid yw pob disgybl yn cyflawni hyd eithaf ei allu.

Mae ymddygiad disgyblion yn gyffredinol dda mewn gwersi ac yn ystod amser chwarae.

**Argymhelliad 5: Sicrhau bod pob athro a llywodraethwr wedi derbyn hyfforddiant mewn swydd (HMS) ar amddiffyn plant ac ymateb yn fwy effeithiol i'r lleiafrif o'r disgyblion sydd â phryderon am fwlian**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae pob aelod o staff a'r llywodraethwyr i gyd bellach wedi derbyn hyfforddiant priodol mewn amddiffyn plant. Maent i gyd yn gwbl ymwybodol o'u rôl a chyfrifoldebau.

Mae'r ysgol wedi cyflwyno ystod o fesurau i ymateb i bryderon disgyblion am fwlian ac, ar y cyfan, mae rhain yn effeithiol. Mae'r ysgol yn parhau i fonitro'r sefyllfa'n barhaus ac yn gweithio i ddatblygu agweddau cadarnhaol ymhlith y disgyblion.

**Argymhelliad 6: Datblygu asesu ymhellach trwy wella effaith marcio, a dilyniant athrawon i waith sydd heb ei gwblhau neu gywiro gan ddisgyblion**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae polisi marcio priodol gan yr ysgol, sydd wedi ei ddosbarthu i bob athro, ond nid yw hwn yn cael ei weithredu'n gyson ar draws yr ysgol. Mae athrawon yn ymateb yn llafar ac yn ysgrifenedig i waith disgyblion ond anghyson yw safon yr adborth y mae disgyblion yn ei dderbyn. Mae athrawon yn rhoi cyfeiriad i waith disgyblion ac yn eu cynorthwyo i oresgyn problemau. Fodd bynnag, mae'r sylwadau a'r ymatebion yn arwynebol ac nid ydynt yn cyfrannu at ddatblygu dealltwriaeth disgyblion.

Mae nifer o strategaethau asesu ar gyfer dysgu wedi eu cyflwyno ac mae cyfleoedd i ddisgyblion asesu eu gwaith eu hunain trwy system oleuadau traffig. Fodd bynnag, nid yw'n cael ei defnyddio'n gyson ar draws yr ysgol. Nid yw disgyblion, ar y cyfan, yn deall pa mor dda maent yn gwneud eu gwaith a'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella.

Mae gweithdrefnau i dracio cynnydd disgyblion wedi gwreiddio yn yr ysgol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r ysgol wedi dechrau defnyddio trefn addas o dracio cynnydd. Yn raddol, mae hyn yn dylanwadau ar addysgu a dysgu, gan alluogi athrawon i ddadansoddi cynnydd yn well ac i gael gwell dealltwriaeth o ddata perfformiad yr ysgol.

**Argymhelliad**

Dylai'r ysgol barhau i roi sylw i'r argymhellion nad yw eto wedi mynd i'r afael â hwy yn llawn.